

Gwybodaeth i Rieni



Ysgol Carwe

Ysgol Gynradd Carwe,
Carwe,
Cydweli
Sir Gaerfyrddin
SA17 4HE.
Ffôn: 01269 860565

Math o Ysgol : Cynradd cymunedol

E-bost: admincgp@ysgolccc.org.uk

Pennaeth	Mrs Rhian Evans
Pennaeth Cynorthwyol	Mrs Carrie Rees
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Ian Evans
Is-Gadeirydd	Mr Tudur Jones

Rhif ar y gofrestr: 48

Mae'r ysgolion yn rhan o Ffederasiwn mewn ardal wledig draddodiadol Gymreig ac wedi'u categorio fel Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg.

GWELEDIGAETH YR YSGOL

Creu cymuned o ddysgwyr brwdfrydig gan ddarparu'r medrau, sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn aelodau gofalus a defnyddiol o'n cymdeithas gyfnewidiol. O fewn amgylchedd hapus a sefydlog anogir y plant i fod yn ddysgwyr annibynnol.

CROESO I'N HYSGOL

Mae'n bleser i groesawu eich plentyn i'n hysgol. Mawr obeithiwn y byddant yn hapus yma. Rydym yn awyddus i'ch cynorthwyo yn ystod taith eich plentyn trwy'r ysgol. Cofiwch ein bod ar gael i gwrdd â thrafod gyda chi ar unrhyw adeg. Mae croeo i chi gysylltu â'r Pennaeth gydag unrhyw fater neu ymholiad:
e bost rwevans@ysgolccc.org.uk

STRWYTHUR DYSGU'R YSGOL

Staff Dysgu

Mrs Rh Evans	Pennaeth
Mrs C Rees	Pennaeth Cynorthwyol ac athrawes CA2
Mrs E Davies	Athrawes (rhan amser)
Mrs C Melly	Athrawes Cyfnod Sylfaen
Miss A Davies	Athrawes Cyfnod Sylfaen

Cynorthwyr dysgu - Miss T James, Miss L Thomas, Mrs N Jones, Mrs L Williams

Swyddog Gweinyddol	Ms A Edwards
Cogyddes	Mrs T Lewis
Cynorthwyr amser cinio	Ms T James, Mrs D Williams, Mrs N Jones
Swyddog clerigol yr ysgol	Mrs M Rowlands

Oriau Ysgol

Dylai'r disgyblion gyrraedd yr ysgol rhwng 8:35 a 8:45 yn y bore os nad ydynt yn manteisio ar y clwb brecwast sydd ar agor rhwng 8:00 ac 8:45 bob bore. Ni ddylai plant fod ar dir yr ysgol yn gynharach na chwarter awr cyn dechrau'r diwrnod ysgol, gan na fydd yr ysgol na'r Awdurdod Addysg yn gyfrifol am ddiogelwch a lles y plant.

Apelir at rieni i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd ysgol erbyn 8.45 y bore. Pwysleisir prydlondeb yn fawr i rieni a disgyblion. Pwysleisir ar bob achlysur nad oes disgybl o'r Cyfnod Sylfaen i fynd adref ar ei ben ei hun.

Y Cyfnod Sylfaen:

Bore: 8:50 - 11:45yb

Prynhawn: 12:45 - 3:10 yh

Cyfnod Allweddol 2

Bore: 8:50 - 11:45 yb

Prynhawn 12:45 - 3:15 yh

DERBYNIADAU YSGOL

Derbynnir plant ar ddechrau'r tymor pan fyddant yn dathlu eu pedwerydd pen-blwydd. Fe drefnir Sesiynau Croeso ar eu cyfer tuag at ddiwedd y tymor blaenorol. Croesawir rhieni er mwyn rhoi cyfle i bawb cwrdd a thrafod mewn awyrgylch cartrefol. Paratwir pecyn o wybodaeth am yr ysgol i bob rhiant newydd. Mae gennym bolisi drws agored ac mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod.

Mae derbyn plant i'r ysgol yn cael ei reoli gan Awdurdod Derbyn. Yn achos ysgolion cymunedol (ysgolion sirol gynt) ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr Awdurdod Derbyn yw Awdurdod Addysg Leol Sir Gaerfyrddin. Derbynnir plant yn ddisgyblion amser-llawn ar yr adegau canlynol:-

Ym mis Medi ar gyfer plant sy'n cael eu pedwerydd pen blwydd rhwng Medi a Rhagfyr; Ym mis Ionawr ar gyfer y rheini sy'n cael eu pedwerydd pen blwydd rhwng Ionawr a Mawrth. Ym mis Ebrill ar gyfer y rheini sy'n cael eu pedwerydd pen blwydd rhwng Ebrill ac Awst.

Dylai rhieni wneud cais yn uniongyrchol i'r Awdurdod addysg gan ddefnyddio'r system ar lein yr ysgol os ydynt yn dymuno i'w plentyn gael ei dderbyn i ysgol y dalgylch. Os yw rhieni yn dymuno gwneud cais am ysgol heb fod yn y dalgylch, dylent drafod y mater gyda phennaeth yr ysgol yn gyntaf ac wedyn gwneud cais ar lein i'r Rheolwr Derbyniadau ym Mhencadlys yr Adran Dysgu Gydol Oes.

www.sirgar.gov.uk

Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r Pennaeth os ydych am esboniad mwy manwl.

Cyfarwyddiadau pwysig oddi wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin:

Bydd y Cyngor drwy'r Rheolwr Derbyniadau yn cyfarwyddo Cyrff Llywodraethol, a thrwyddynt y Pennaeth, i'w gwneud hi'n eglur i rieni pan fydd plentyn o du allan y dalgylch yn cael mynediad i'r ysgol y gall hynny gael effaith ar y trosglwyddiad i addysg uwchradd. Nid yw'n dilyn fod mynediad i ysgol gynradd yn hawlio mynediad i ysgol uwchradd y dalgylch; cyfeiriad cartref y plentyn sy'n dynodi'r ysgol uwchradd y bydd yn cael mynediad iddi. Mae adborth wrth rieni yn y Broes Apeliadau yn nodi nad yw hyn bob amser yn eglur o'r dechrau.

TREFNIADAU YMWELD AC ADRODD I RIENI

Croesawir rhieni yn gynnes i drafod unrhyw agwedd o gwricwlwm neu gynnydd plentyn. Ceir cyfleoedd megis Nosweithiau Agored a chyfarfodydd gosod targedau. Cynhelir nosweithiau agored i rieni dwywaith y flwyddyn. Yma, trafodir gwaith a chynnydd y disgyblion mewn awyrgylch iachus. Bydd cylchlythyron yr ysgol yn cynnwys manylion llawn a threfn apwyntiadau. Mae pob plentyn sydd ar ein Cofrestr Anghenion Addysg Arbennig yn derbyn Cynllun Addysg Unigol. Adolygir y cynlluniau gyda chymorth a mewnbwn y rhieni.

Gweithredir strategaethau o asesu ffurfiannol a pharhaus yn ogystal ag asesu crynodol yn yr ysgol hon. Cedwir proffil o waith pob plentyn mewn ffeil unigol sy'n cynnwys enghreifftiau o waith gyda sylwadau ar gynnydd.

NOD AC AMCANION CYFFREDINOL YR YSGOL

Dylai'r ysgol:

- Gwneud pob plentyn deimlo'n hapus a diogel mewn awyrgylch gartrefol.
- Roi cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd eithaf ei allu ymhob agwedd o'r cwricwlwm.
- Gyflwyno'r addysg sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i brofiad y disgybl yn y gymuned.
- Hybu a datblygu dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o Gymru a Chymreictod.
- Gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl a magu parch tuag at amrywiaeth yr ysgol.
- Hybu cysylltiad â chydweithrediad rheini.
- Feithrin parch at eiddo ac at bersonau eraill.
- Ysgogi cysylltiad â'r gymuned.
- Bwysleisio ymddygiad, cwrteisi ac ymddangosiad.
- Feithrin athrawon ymroddgar a brwdfrydig.

NOD AC AMCANION Y CWRICWLWM

Rhaid i'r cwricwlwm fod yn un sy'n:

- a) hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion yr ysgol a'r gymdeithas.
- b) Paratoi'r disgyblion hynny ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau, a phrofiadau bywyd oedolion.

Bwriedir i'r amcanion addysgol sylfaenol adlewyrchu datblygiad y plentyn drwy holl gwricwlwm yr ysgol.

- Dylid helpu plant i feithrin meddyliau bywiog ac ymchwilgar, gan gynnwys y gallu i holi a dadlau yn rhesymegol ac ymateb i dasgau.
- Creu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o gymdogaeth, iaith, diwylliant ac amgylchedd y plentyn a bod yn ymwybodol o gyfnodau a manau eraill.
- Datblygu iaith yn ei holl ffyrdd, er mwyn iddi fod yn ddull pwrpasol ac ystyriol o gyfathrebu, gan gynnwys gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu a gwerthfawrogi llên yn y famiaith a'r ail iaith.
- Datblygu medrau a deallusrwydd mathemategol.
- Datblygu medrau a deallusrwydd gwyddonol a thechnegol mewn byd sy'n gyflym newid.
- Datblygu hunanfyngiant trwy gerddoriaeth, meim, drama, celf a dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.
- Dysgu gofal wrth ddefnyddio offer a chyfarpar, e.e. Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth, Addysg Gorffol, Celf, Dylunio a Thechnoleg a.y.b.
- Meithrin arferion hunanddisgyblaeth.
- Creu ymwybyddiaeth o'r angen am lendid personol, moesgarwch a chwarteisi.
- Hybu arferion diogelwch yn yr ysgol, y cartref a'r gymdeithas.

DARPARIAETH Y CYFNOD SYLFAEN A'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

- Mae yna chwe elfen i'n cwricwlwm ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen:
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol;
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol;
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
- Datblygiad Corfforol;
- Datblygiad Creadigol;
- Yn amlwg, gyda phlant mor ifanc, ein prif fwriad yw sicrhau bod y disgyblion yn gartrefol a chysurus gyda bywyd ysgol. Mae'r profiadau dysgu cynnar yn gallu gosod sylfaen wych iddynt. Anelwn at ddarparu awyrgylch hapus, llawn brwdfrydedd i bawb.

Rhannwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol i 4 Cam Allweddol:

- Cyfnod Sylfaen (4 - 7 oed) a
- Cyfnod Allweddol 2 (7 - 11 oed) yw'r ddau gyfnod a gyflwynir yn yr ysgol hon.
- Cyflwynir Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn y sector uwchradd.
- Pynciau craidd: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Pynciau sylfaen: Hanes, Daeryddiaeth, Dylunio a thechnoleg, Celf a dylunio, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth a Thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu.
- Rhaid hefyd addysgu Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

- Mae trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod allweddol 2 yn broses esmwyth tu fewn ein teulu ysgol. Mae'r staff yn gallu rhannu gwybodaeth bwysig trwy'r amser, sydd yn sicrhau cysondeb i'r plentyn.
- Addysgir y Cwricwlwm Cenedlaethol yn bennaf trwy ddull thema a dull Traws Cwricwlaidd. Dewisir themâu ar gyfer yr ysgol gyfan ac fe'u cynllunnir ar gyfer pob tymor, a chynhwysir elfennau o'r meysydd pynciol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r thema. Cedwir cofnodion o dargedau'r disgyblion, eu cyrhaeddiad ynghyd â'r lefelau a gyrhaeddwyd. Dim ond canllaw yw pob thema, nid oes yn rhaid i athro addysgu nodweddion ynghlwm â'r thema bob amser.
- Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei integreiddio'n llawn ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol.
- Darparar yr ysgol addysg gyflawn yn yr holl feysydd a hefyd chaiff disgyblion ddod yn ymwybodol iawn o fywyd cymdeithasol yn yr ardal a Chymru yn gyffredinol.

ASESU'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

Cynhelir asesiadau pwrpasol gan athrawon trwy gydol y flwyddyn. Gwneir asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol gan athrawon yn ystod Tymor Yr Haf ar gyfer Blwyddyn 2 a 6. Yn Bl. 2 asesir disgyblion mewn tri phwnc, sef, Cymraeg, Mathemateg a Datblygiad Personol a Chymdeithasol. Yn Bl. 6 asesir y disgyblion mewn pedwar pwnc, sef, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg. Hysbysir y rhieni o'r canlyniadau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol fel rhan o broses trafod cynnwys Adroddiad Blynyddol y plentyn unigol.

Mae pob dysgwr yng Nghymru o flwyddyn 2 - 6 yn cael profion darllen a rhifedd. Cynhelir y profion dros gyfnod o wythnos ar ddechrau mis Mai.

ANGHENION ADDYSGU YCHWANEGOL

Mae darpariaeth Anghenion Addysgu Ychwanegol yr ysgol yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Côt Ymarfer. Rhaid cael caniatâd y rhiant cyn gosod plentyn ar y gofrestr Addysg Arbennig. Felly, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r cartref yn uniongyrchol. Mae cynnal deialog agored yn flaenoriaeth fawr i ni.

Ym mholisi Anghenion Addysgu Ychwanegol yr ysgol, darperir gwybodaeth yn ymwneud â nodau'r ysgol at blant gydag Anghenion Arbennig. Ceir disgrifiad hefyd o arferion yr ysgol i adnabod plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig mor fuan â phosib ac i gynnig y cymorth priodol iddynt. Mae'r polisi'n disgrifio cyfnodau'r Côt Ymarfer a'i oblygiadau yn ogystal â'r trefniadau monitro ac adolygu. Trafodir hyfforddiant staff, cydweithrediad gydag asiantau arbenigol a phartneriaeth gyda rhieni. Pwysleisir bod cyfrinachedd yn holl bwysig ymhob achos. Ceir manylion ynglŷn â sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei hariannu ar sail archwiliad blynyddol a hefyd wybodaeth am y ddarpariaeth ychwanegol i blant sydd â datganiadau. Mae'r polisi Anghenion Addysgol Arbennig ar gael i unrhyw un sy'n dymuno cael copi ohono o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cyflogi cynorthwyrwyr dysgu sy'n cefnogi grwpiau ac unigolion o fewn y dosbarth.

TREFNIADAU AR GYFER DERBYN DISGYBLION ANABL

Mae gan yr ysgol gynllun mynediad i'r anabl er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Croesewir unrhyw ddisgybl anabl i'r ysgol, a gwneir unrhyw addasiadau fydd angen er mwyn cynnig addysg gyflawn i bob unigolyn a sicrhau na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw ddisgybl arall. Mae'r ystafelloedd dosbarth i gyd yn hygyrch o'r Brif fynedfa.

DISGYBLION SY'N DERBYN GOFAL

Y Person Cyfrifol ar gyfer hybu cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn gofal yw Mrs Rhian Evans Y Pennaeth.

Mae gan yr ysgol a'r Corff Llywodraethol bolisi cydraddoldeb hiliol a chyfle cyfartal sy'n sicrhau bod Plant sy'n derbyn Gofal yn cyrraedd hyd eithaf eu gallu.

ADDYSG RHYW

Cyflwynir Addysg Ryw o fewn y rhaglen Addysg Iechyd yn integredig ac mewn modd sensitif sy'n rhan o thema. Nid yw'n cael ei ddysgu fel testun ar wahân. Yn ystod Tymor yr Haf bydd Ymwelydd Iechyd yr Ysgol yn cyflwyno'r pecyn 'Addysg Ryw' i ferched Blwyddyn 6 sy'n ymdrin â'r themâu canlynol:-

Newidiadau i'r Corff; Newidiadau Pellach i'r Corff;

CYSYLLTIADAU Â'R BYD BUSNES A DIWYDIANT

Mae'r ysgol yn cynnal a datblygu cysylltiadau gydag amrywiaeth o fusnesau a diwydiannau er mwyn ehangu datblygiad addysgol y plant. Gwneir pob ymdrech i ddarparu cyfleoedd unigryw ac ysgogol ar gyfer mwynhad a datblygiad y disgyblion.

ADDYSG GREFYDDOL AC ADDOLI AR Y CYD

Rhoddir pwyslais ar y Gred Gristnogol. Yn ogystal, rydym yn dilyn gofynion CYSAG Sir Gaerfyrddin sydd yn sicrhau trafodaeth ac astudiaeth o grefyddau eraill ein byd. Cynhelir cyd-addoli dyddiol. Anogir y plant i gyfrannu yn ystod y gwasanaethau hyn. Os yw rhiant yn teimlo bod angen eithrio plentyn o'r gwasanaeth neu agwedd o Addysg Grefyddol am resymau dilys y dylent gysylltu â'r Pennaeth fel bod trefniadau gwahanol yn gallu cael ei gwneud.

POLISI CODI TAL

Pan fydd yn bosibl, fe fydd yr ysgol yn cynnig gweithgareddau allgyrsiol yn rhad ac am ddim i'r disgyblion. Ar brydiau ni fydd cost gweithgaredd yn gallu cael ei gynnal gan yr ysgol ee tripiâu addysgol. Mewn achosion fel hyn fe fydd Ffrindiau'r Ysgol yn gwneud cyfraniad tuag at y costau teithio, ac fe fydd yna ofyn am gyfraniad gwirfoddol gan y rhieni tuag at weddill cost y gweithgaredd. Os yw rhiant yn teimlo bod angen cymorth ariannol tuag at gost unrhyw weithgaredd yna y gallent fynd ar ofyn y Corff Llywodraethol ar gyfer dileu taliadau.

Ni chodir tâl am weithgareddau ysgol heblaw am yr isod:

- Teithiau addysgol, lle gofynnir am gyfraniadau gan rieni.
- Gweithgareddau allgyrsiol a drefnir gan fudiadau allanol.

CYFLE CYFARTAL

Mae gan yr ysgol a'r Corff Llywodraethol bolisi cydraddoldeb hiliol a chyfle cyfartal sy'n datgan y byddwn yn:

- gwrthwynebu pob math o wahaniaethau annheg, fel unigolion ac fel sefydliad, boed hwnnw'n gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, ar sail rhyw, lliw, cefndir ethnig neu genedl, crefydd, anabledd, adnoddau ariannol, cefndir cymdeithasol, statws HIV, oed, golwg, gallu, iaith, barn wleidyddol, maint, statws priodasol neu dueddiad rhywiol.
- yn herio rhagfarn neu syniadau afresymol ynghylch grwpiau mewn cymdeithas ac yn ceisio meithrin goddefgarwch a pharodrwydd i dderbyn gwahaniaethau.
- yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth mewn cymuned a thu hwnt.
- yn ceisio bod yn gymuned gynhwysol, yn ystyr ehangaf y gair.
- yn paratol i'r disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolyn mewn cymdeithas aml-ddiwyllyannol.

CHWARAEON

- Disgwylir i bob plentyn gymryd rhan yn y gwersi addysg gorfforol a chwaraeon, a hynny mewn dillad addas. Cynigir profiadau mewn amrywiaeth o chwaraeon er mwyn meithrin a hybu datblygiad sgiliau. Mae gan yr ysgol neuadd amlbwrpas a chae chwarae ar gyfer holl ofynion y cwricwlwm ymarfer corff. Darperir gwersi nofio ym Mhwll Nofio'r Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin.
- Mae timau o'r ysgol yn cystadlu yn erbyn timau o ysgolion eraill yng nghystadlaethau'r Cwm a'r Yr Urdd. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu a phlant o ysgolion cyfagos mewn chwaraeon fel pêl droed, rygbi, pêl rhwyd, criced, traws gwlad. Cymerir rhan ym Mabolgampau'r Mynydd Mawr yn flynyddol. O bryd i'w gilydd defnyddir arbenigwyr i addysgu agweddau o'r pwnc megis rygbi a nofio.
- Pwysleisir bod "cymryd rhan" yn y gweithgareddau yn bwysicach na'r ennill a bod rhaid i bob unigolyn gyfrannu o'i orau glas ar bob achlysur.

DIOGELU PLANT

Yn yr ysgol hon, mae iechyd, diogelwch a lles pob disgybl yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn gwrando ar ein disgyblion, ac yn cymryd yr hyn y maent yn dweud wrthym o ddifrif. Ein bwriad yw bod plant yn mwynhau eu hamser fel disgyblion yn yr ysgol hon.

Rydym eisiau gweithio mewn partneriaeth gyda chi er mwyn helpu eich plentyn i gyrraedd ei lawn botensial a gwneud cyfraniad positif. Ein person dynodedig ar gyfer diogelu yw Mrs Rhian Evans (Pennaeth) a Mr Ian Evans (Cadeirydd y Llywodraethwyr).

Y Llywodraethwr â chyfrifoldeb am brosesau diogelu yw Mrs Kathryn Davey.

Ar achlysuron prin, bydd ein pryder am blentyn yn golygu ein bod yn cysylltu ag asiantaethau eraill cyn cysylltu â'r rhieni. Mae achosion yn codi ble mae'n rhaid i ni gysylltu ag asiantaethau eraill oherwydd pryder am blentyn. Er ein bod yn anelu at weithio mewn partneriaeth gyda rhieni, weithiau mae'n bosib bydd eithriadau i hyn pan mae pryder yn cael ei godi am amddiffyniad plentyn.

Os ydych eisiau gwybod rhagor am ein gweithdrefnau neu'r polisi, siaradwch â'r Pennaeth neu gallwch ymweld â'n gwefan.

DIOGELWCH YN YR YSGOL

Mae diogelwch eich plentyn yn flaenoriaeth i ni. Cynhelir ymarferion rhag tân yn gyson (o leiaf unwaith y tymor) fel bod y plant yn ymgyfarwyddo â gwacau'r ysgol ar frys mewn achos o dân neu unrhyw achos brys arall. Ceir system rybudd effeithiol yn yr adeilad.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac mae mesurau priodol ar waith yn gyson er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn ystod y diwrnod ysgol - cloeon, larymau ayyb. Defnyddir system 'arwyddo i fewn' a bathodynau gweledol llachar i ymwelwyr. Mae pob mynedfa i'r ysgol yn cael ei gloi a defnyddir system allwedd 'ffob.' Gofynnir i ymwelwyr ganu'r gloch ac aros am aelod staff i agor y drws. Nid yw'r plant yn cael agor y drws i ymwelwyr.

Cymerir pob gofal dros ddiogelwch y disgyblion ac mae canllawiau manwl i'r holl staff ar gyfer eu gorchwyllo. Mae'r athrawon ar ofalaeth yn swyddogol chwarter awr cyn sesiwn y bore hyd amser cinio. Mae'r Ysgol yn darparu Gofalwyr Canol Dydd yn ystod yr awr ginio. Bydd yr athrawon ar ofalaeth am chwarter awr ar derfyn sesiwn y prynhawn hefyd wrth drosglwyddo'r plant i'w rhieni.

Ni chaniateir i rieni yrru eu cerbydau i mewn i'r ysgol. Pwysleisir nad yw'r athrawon yn gyfrifol am unrhyw ddamwain all ddiwydd i unrhyw berson neu eiddo tu allan i brif allanfeydd yr adeilad. Felly trosglwyddir cyfrifoldeb am ddiogelwch y plant i'w rhieni neu warcheidwaid wrth ddrysau'r ysgol.

Mae yna drefniadaeth diogelwch y rhyngwyd cadarn yn yr ysgol. Mae cytundeb wedi ei arwyddo gan bob disgybl ac mae Safle we y Ffederasiwn yn cynnwys adran ar e-ddiogelwch yn cynnwys polisiau a chysylltiadau defnyddiol ee CEOP, thinkuknow a kidscape i gynorthwyo rhieni.

Anogir disgyblion Blwyddyn 6 i dderbyn gwersi beicio o dan nawdd Cynllun Diogelwch y Ffyrdd.

Bydd yr heddlu lleol hefyd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i drafod materion pwrpasol gyda'r disgyblion.

Trefniadau Parcio Diogel yr Ysgol:

(Yn unol ag argymhellion Swyddog Sirol dros Ddiogelwch y Ffyrdd a Heddlu Dyfed Powys)

Pwysleisir i **BOB** gyrrwr sy'n cludo plant i'r ysgol gydymffurfio â'r rheolau canlynol:

- Rhaid gyrru'n **ARAF** bob amser;
- **NI CHANIATEIR** gyrru cerbyd i fuarth chwarae'r ysgol;
- **Ni** ddylid parcio ar hyd y llinellau melyn Igam Ogam o flaen yr ysgol.

CYTUNDEB CARTREF YSGOL

Wrth gychwyn yr ysgol caiff rhieni a disgyblion gopi o'r Cytundeb Cartref Ysgol sy'n amlinellu'r disgwyliadau sy'n ofynnol o'r rhiant, y plentyn a'r ysgol. Mae angen i chwi ddarllen y ddogfen yn ofalus, trafod y cynnwys gyda'ch plentyn a'i ddychwelyd i'r ysgol wedi arwyddo. Mae copi o'r cytundeb yn y pecyn 'Dechrau ysgol'.

POLISI IAITH YR YSGOL

Mae'r ysgol hon yn ysgol 'Cyfrwng Cymraeg' yn ôl diffiniad Polisi Iaith Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw unig gyfrwng y Cyfnod Sylfaen (3 hyd at 7 oed). Cyflwynir Saesneg yn ystod Cyfnod Allweddol 2 (7 hyd at 11 oed). Yn unol â pholisi Dwyieithog yr Awdurdod Addysg, darperir adnoddau dysgu safonol i sicrhau bod disgyblion yn medru cyfathrebu'n hawdd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol. Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgolion yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Ar gyfer y plant hynny a ddaw i mewn i'r ysgol heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg, dyma a fydd y drefn:

Cyfnod Sylfaen : Gwneir y plant i deimlo'n gartrefol a sefydlog yn y dosbarth. Defnyddir y Saesneg lle yn addas. Cyn gynted ag y bydd y plentyn yn gartrefol yn ei amgylchedd newydd, cyflwynir y Gymraeg yn raddol iddo / iddi trwy weithgareddau ymarferol sy'n cynnwys llawer iawn o waith llafar. Addysgir y plentyn i ddarllen, i ysgrifennu ac i siarad yn Gymraeg.

Blynyddoedd 3 i 6: Ar gyfer y plant hynny a ddaw i mewn i'r ysgol heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg ceir cyfnod o ymgartrefu. Er addysgir y plentyn trwy gyfrwng y Saesneg ar y dechrau, cyflwynir y Gymraeg cyn gynted â phosibl, trwy weithgareddau llafar ac ymarferol. Cynigir cyfle i'r disgyblion sy'n 'hwyrddyfodiaid' i fynychu'r Uned Iaith ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr yn yr Iaith Gymraeg.

TROSGLWYDDO I'R YSGOL UWCHRADD

Ers Medi 2013, mae'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Maes y Gwendraeth lle mae modd parhau a'u haddysg cyfrwng Cymraeg. Mae yna bartneriaeth iachus rhyngom a'r ysgol hon. Anogir rhieni i ymweld â'r Ysgol Uwchradd wrth i'r plant nesáu at gyfnod trosglwyddo. Mae'r pennaeth ac athrawon cyfnod allweddol 2 yn rhannu trawsdoriad o weithgareddau gyda chyfeillion yr uwchradd. Rydym hefyd yn elwa wrth ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd yr ysgol, neuadd chwaraeon, adrannau technoleg a thechnoleg gwybodaeth. Ceir ymweliadau i'n hysgol gan aelodau o staff Maes y Gwendraeth i drafod datblygiad ac anghenion unigol plant fel rhan o raglen trosglwyddo.

TREFNIADAU CWYNO

Gweithredir Polisi Trefn Cwyno gan yr ysgol. Rydym yn gobeithio bod deialog a thrafodaeth agored yn gynnar yn y broses yn gallu goresgyn problemau. Beth bynnag, os oes angen, gall rhieni a gofawyr dilyn y camau canlynol:

1. Trafod y gofid gyda'r athro / athrawes ddosbarth,
2. Gwneud apwyntiad i drafod gyda'r Pennaeth.
3. Ysgrifennu at y Pennaeth a fydd yn hysbysu Cadeirydd Y Llywodraethwyr, Clerc y Corff Llywodraethol a'r Awdurdod Addysg Leol.
4. Y Corff Llywodraethol yn dilyn proses statudol sydd ar gael fel rhan o Bolisi Ysgol (copi ar gael o'r swyddfa).

GOFAL BUGEILIOL

Bwriad yr ysgol yw creu cymdeithas ac awyrgylch gyfeillgar a chynnes er mwyn i'r plant gael yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a sicrwydd. Gweithreda'r athrawon fel tîm gyda'r pennaeth i sicrhau gofal i bob plentyn. Ar ddechrau gyrfa ysgol pob plentyn, dylai'r rhieni hysbysu'r ysgol o rifau ffôn fel cysylltfaen brys (sydd yn cynnwys rhifau ffôn symudol newydd).

Os caiff unrhyw blentyn ei daro'n sâl, cysylltir â'r rhieni er mwyn gwneud trefniadau i'w casglu. Ni anfonir unrhyw blentyn adref o'r ysgol heb sicrhad bod yna berson cyfrifol i warchod y plentyn.

Os ceir rheswm i gau'r ysgol yn gynnar e.e. tywydd garw, diffyg gwres ayb gwneir pob ymdrech i hysbysu'r rhieni o'r penderfyniad mor gynnar â phosibl. Ni chaniateir i'r plant adael tir yr ysgol nes ceir sicrwydd bod yna berson cyfrifol i'w derbyn neu casglu o'r ysgol.

Dylai rhieni hysbysu'r ysgol os yw eu plentyn yn absennol am unrhyw rheswm trwy anfon llythyr neu ffonio. Dyletswydd y rhieni hefyd yw cysylltu â'r ysgol os dymunant i'w plentyn adael yr ysgol cyn diwedd y diwrnod ysgol.

MEDDYGINIAETH

Yn unol â Pholisi'r Adran addysg, mae'n ofynnol bellach i rieni wneud cais i'r Pennaeth pe bai angen rhoi unrhyw fath o feddyginiaeth, yn cynnwys anadlydd, i'w plentyn. Mae'r ffurflenni cais ar gael oddi wrth y Pennaeth. Darperir ar gyfer plant ag anghenion penodol megis alergedd cnau, asthma a chlefyd y siwgr.

POLISI YMDDYGIAD YR YSGOL

Er mwyn paratoi disgyblion i dyfu i fod yn ddinasyddion da, gweithgar, cymwynasgar a pharchus yn y gymdeithas, disgwylir i bob un ymddwyn mewn modd sy'n creu awyrgylch hapus a diogel o fewn yr ysgol.

Amcanion:

- I hyrwyddo agwedd positif o fewn yr unigolyn tuag at yr ysgol fel cymdeithas wâr;
- I ddatblygu hunan ddisgyblaeth, parch a chydymdeimlad tuag at eraill;

- I greu awyrgylch hapus i bob disgybl yng ngweithgarwch yr ysgol oddi mewn i'r adeilad a'r tu allan a thu allan iddo.
- I gyfleu canllawiau a rheolau clir sy'n berthnasol i bob agwedd o fywyd ysgol;
- I annog pob unigolyn i gyfrannu at sefyllfa ddiogel a hapus i bawb sy'n rhan o fywyd ysgol.

Ymddygiad da

Mae'n hynod bwysig i roi clod a chefnogaeth am ymdrech. Seilir disgyblaeth dda ar ddealltwriaeth o anghenion ein gilydd, ac mae'r ysgol yn cymeradwyo cyfraniadau plant i gynorthwyo eraill yng ngweithgarwch yr ysgol, amserau egwyl, adegau cinio ac yn y gweithgarwch allgyrsiol. Canmolwn ymddygiad da yn gyson.

Disgwyliadau Ymddygiad:

- I ymddwyn yn weddus a moesgar;
- I ymwneud â'i gilydd mewn modd cwrtais, parchus a goddefgar;
- I ymddwyn mewn modd na fydd yn fygythiol nac yn niweidiol i eraill;
- I barchu ei eiddo ei hun ac eiddo eraill yn yr ysgol.

Anogir y plant i fod yn rhan o broses creu a chynnal rheolau yn gyson wrth i'r Cyngor Ysgol gwrdd â thrafod. Os bydd plentyn yn parhau i gam-ymddwyn, yna cysylltir â'i rieni a gwahoddir hwy i'r ysgol i drafod problemau ymddygiad y plentyn. Os gwelir plentyn yn camymddwyn mewn modd a fydd yn peryglu ei hun neu eraill, mae hawl gan y pennaeth, mewn amgylchiadau eithriadol, i wahardd y plentyn o'r ysgol. Hysbysir y rhieni, cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Lleol am benderfyniad o'r math. Ceir eglurhad manwl yn ein polisi ar ymddygiad da sydd ar gael o'r swyddfa.

YMWELIADAU'R YSGOL

Mae plant yn mwynhau ymweld â lleoedd ac maent yn dysgu llawer o'u profiadau. Trefnir nifer o ymweliadau addysgiadol ynghlwm â'r gwaith a wneir ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ymwelir ag amgueddfeydd, orielau a safleoedd o ddiddordeb er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Bydd plant B15 a 6 yn cael cyfle i dreulio tair noson yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Ystyrir y gweithgareddau maes yma yn gyfle i'r plant gyfnewid profiadau, dysgu byw yn annibynnol a meithrin dinasyddiaeth mewn awyrgylch sydd wedi ei seilio ar y bywyd Cymreig a Chymraeg. Gwneir pob ymdrech i roi cyfleoedd na fyddai'r plant yn profi yn eu bywydau arferol. Gwneir pob ymdrech i gadw costau mor isel ag sy'n bosibl ond, gofynnir yn garedig am gyfraniadau bach gwirfoddolyn achlysurol. Hysbysir y rhieni ymlaen llaw ynglyn â manylion a chost yr ymweliad. Gofynnir hefyd am ganiatâd ysgrifenedig gan y rhieni.

Cred y Corff Llywodraethol a'r staff mewn hybu cysylltiadau clos gyda'r cymunedau sydd yn rhan o ddalgylch yr ysgol. Rydym yn mwynhau ymweliadau lleol a chyfle i gymryd rhan yn yr ardal leol mor aml â phosib.

PRESENOLDEB YR YSGOL

Absenoldebau gyda chaniatâd a heb ganiatâd

Caiff y gofrestr ei marcio'n ddyddiol bob bore a bob prynhawn. Os fydd eich plentyn yn absennol ac nad ydym fel ysgol wedi derbyn gwybodaeth am natur yr absenoldeb yna fe'i cofnodir fel absenoldeb heb ganiatâd. Gofynnir i rhieni i gysylltu yn syth a'r ysgol naill ai trwy alwad ffôn neu e bost er mwyn rhoi gwybodaeth am natur yr absenoldeb. Trwy wneud hyn fe'i gofnodir fel absenoldeb gyda chaniatâd

GWAITH CARTREF

Mae gwaith cartref yn elfen bwysig o addysg. Gwelir gwaith cartref yn fwy eang na pharhad o weithgareddau'r dosbarth yn hytrach, fe'i gwelir fel elfen a all ddatblygu ar yr hyn a addysgir yn yr ysgol. Mor fuan â phosib, disgwylir i'r plant ddarllen yn gyson yn eu hamser eu hun er mwyn datblygu eu sgiliau darllen. Ni phwysleisir hyn fel 'gwaith cartref' gan ein bod eisiau annog teimlad o fwynhad a rhyddid i'r ymarfer, ac nid gorfodaeth.

Anogir rhieni i gefnogi nifer o elfennau addysgol o'r cwricwlwm. Anogir teuluoedd i fwynhau dysgu gyda'i gilydd a chyfeillachu trwy gyd-weithio. Mae'n bwysig i annog eich plentyn a chanmol yn aml yn ystod holl weithgareddau dysgu.

Gosodir gwaith cartref ar lefel addas drwy'r ysgol gyfan. Mi fydd yn adlewyrchu aeddfedrwydd a gallu disgyblion wrth iddynt ddatblygu. Erbyn diwedd CA2 (Bl6) disgwylir rhyw ddwy dasg yr wythnos. Mae hyn yn baratoad da ar gyfer bywyd ysgol uwchradd.

CINIO YSGOL

Caiff cinio ei baratoi yng nghegin yr ysgol bob dydd. Mae'r fwydlen yn cael ei dosbarthu i bob teulu a caiff ei arddangos yn yr ysgol. Mrs M Rowlands yw swyddog clerigol yr ysgol. Dylid talu sieciau am brydau ysgol yn enw **Cyngor Sir Gaerfyrddin**. Gellir gwneud cais am Brydiau Ysgol am Ddim ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin. Gall y plant nad ydynt yn dymuno bwyta prydau ysgol ddod â brechdanau i'r ysgol neu fe allent fynd adref i ginio. Bwyteir prydau ysgol a brechdanau yn neuadd yr ysgol. Gorchwylir y plant yn ystod yr awr ginio gan ein tîm o gynorthwyr canol-dydd. Mae clwb brechwast a gynhelir yn ddyddiol yn neuadd yr ysgol rhwng 8.00 a 8.35 bob diwrnod ysgol. Mae'r clwb brechwast yn rhad ac am ddim, ariannir gan Lywodraeth Cymru.

BWS CERDDED

Rydym yn ffodus ein bod yn medru cynnig bws cerdded dyddiol sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwr o'r gymuned ac aelod o staff yr ysgol. Rydym yn falch iawn bod ein bws cerdded wedi ennill nifer o wobrau lleol a chenedlaethol. Mae'r bws yn cychwyn o Frongwendraeth am 7:45yb ac yn cwrdd â disgyblion ar hyd y ffordd. Rhoddir siaced llachar / ponsho glaw i bob disgybl sy'n cerdded. Mae'r bws cerdded yn cyrraedd yr ysgol mewn da bryd ar gyfer clwb brechwast. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol.

DILLAD YSGOL

Mae gan yr ysgol wisg gydnabyddedig. Mae'n cynnwys crys chwys gwyrdd a chrys polo melyn gyda logo'r ysgol arnynt. Gellir archebu'r dillad o'r ysgol. Rydym yn annog plant i wisgo dillad ysgol bob amser.

POLISI DI-FWG

Gofynnir i bawb i barchu'r polisi hwn er mwyn gosod esiampl da ac iach i'n plant. Mae holl adeiladau'r ysgol ynghyd â'r ardal allanol wedi eu clustnodi yn fannau di-fwg, ac ni chaniateir i neb ysmegu ynddynt.

YSGOL ECO, YSGOL IACH A DINASYDDIAETH BYD EANG

Rydym yn falch iawn i fod yn Ysgol Eco Platinwm sydd wedi derbyn 4 baner werdd. Fel ysgol rydym yn hyrwyddo'r ffaith ein bod yn ddinasyddion byd eang a bod gennym gyfrifoldeb dros yr amgylchedd.

Rydym wedi derbyn ein pumed deilen ysgolion iach am ein gwaith ar ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o'u hiechyd personol a'u lles.

Mae'r Cyngor Ysgol wedi ei ethol yn ddemocrataidd gan y disgyblion. Maent yn cwrdd yn rheolaidd. Mae'r aelodau'n rhydd i godi unrhyw fater ac yn cynrychioli barn eu cyfoedion mewn fforwm hollol agored.

Mae gan yr ysgol Statws Ysgol Ryngwladol.

FFRINDIAU'R YSGOL

Mae'r ysgol yn hynod o ffodus bod ganddi Ffrindiau Ysgol gweithgar a chefnogol. Mae cost amryw o weithgareddau, megis ymweliadau addysgol, yn ogystal ag offer addysgol yn cael eu talu gan y Gymdeithas.

COFIWCH

OS OES GENNYCH UNRHYW BRYDERON AM ADDYSG EICH PLENTYN YNA CYSYLLTWCH Â MI AR UNWAITH YN YR YSGOL.

Rhian Evans Pennaeth